

Dedfryd o farwolaeth i nifer di-rif o bobl

Yn dilyn y bleidlais yn Senedd San Steffan i leihau'r swm a gyfrennir yn flynyddol gan Brydain at gefnogi gwledydd tlotaf y byd – o 0.7% o'n hincwm gros cenedlaethol i 0.5% (lleihad o £4 biliwn yn flynyddol), bu Aled Davies yn crynhoi'r ymateb gan wahanol fudiadau ac enwadau.

Bu i gynlluniau gan Lywodraeth San Steffan i leihau'r swm o arian a roddir mewn cymorth dramor gael eu cymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin rai dyddiau yn ôl. Pleidleisiodd yr Aelodau Seneddol o fwyafrif o 35 i gefnogi lefel is o gefnogaeth, sef gostyngiad o 0.7% o'n hincwm gros cenedlaethol i 0.5%. Mae'r symudiad wedi cael ei feirniadu'n eang gan wledyddion o bob plaid ac arweinwyr crefyddol a chymdeithasol ledled Prydain, gyda'r Cyn-brifweinidog Theresa May yn rhybuddio y bydd rhai o bobl a phlant tlotaf y byd yn marw o ganlyniad i'r toriad yn y nawdd a roddir gennym. Mae'r gostyngiad i 0.5% yn golygu mai tua £10 biliwn fydd yn cael ei wario ar gymorth eleni, sydd tua £4.4 biliwn yn llai na'r hyn oedd wedi ei addo.

Traddodiad o gefnogi

Ers y 18fed ganrif, mae rhai gwledydd wedi bod yn cefnogi gwledydd tlawd, gan gynnig cefnogaeth economaidd er mwyn cynnal y mwyaf bregus yn ein byd. Yn 1970, gosododd y Cenhedloedd Unedig darged i genhedloedd cyfoethocaf y byd i ymrwymo i roi 0.7% o'u hincwm cenedlaethol gros i wledydd tlotach. Methodd y Deyrnas Unedig â chyrraedd y targed hwnnw tan 2013, ond yna o 2015 ymlaen fe wnaeth Llywodraeth Geidwadol David Cameron gymeradwyo deddf seneddol newydd er mwyn gwneud yr ymrwymiad hwnnw yn gyfraith statudol.

Mae cefnogaeth drawsbleidiol i'r ddeddf honno, a oedd i fod mewn grym am gyfnod cychwynnol o 25 mlynedd. Roedd y gefnogaeth ariannol hon gan Brydain yn ymgais i sicrhau bod gan wledydd tlotaf y byd fynediad at addysg, gofal iechyd, dŵr glân, glanweithdra a bwyd. Ond, lai na degawd ers i hyn ddod yn gyfraith, mae llywodraeth bresennol y Deyrnas Unedig wedi pleidleisio i dorri'r gyllideb o 0.7% i 0.5%. Y Deyrnas Unedig yw'r unig aelod o wledydd y G7 sydd wedi gwneud gostyngiad o'r fath. Pleidleisiodd aelodau San Steffan o leiafrif bach iawn y bydd y 0.2% sy'n weddill yn cael ei roi tuag at adfer yr economi ym Mhrydain yn sgil effaith y pandemig byd-eang. Mae'r Prifweinidog wedi amddiffyn y toriad, gan nodi y bydd yn pwysu



i ddychwelyd at addewid manifesto'r Blaid Geidwadol o 0.7% cyn gynted â phosib, ond nid oes unrhyw amserlen wedi ei rhoi.

Ymateb y mudiadau dyngarol

Wrth ymateb i'r bleidlais ar leihau'r cymorth, dywedodd Pete Moorey, pennaeth ymgyrchoedd Cymorth Cristnogol:

Yn y bôn, bydd y bleidlais ddi-hid a dadleuol hon yn effeithio ar gymorth am flynyddoedd i ddod. Ynghanol pandemig byd-eang, gyda thlodi eithafol yn codi, rydym yn troi ein cefnau ar y bobl dlotaf a mwyaf bregus yn y byd. Llywodraeth yw hon sy'n ceisio osgoi ei chyfrifoldebau tuag at bobl dlotaf y byd, a bydd y penderfyniad hwn yn gwneud niwed mawr i statws ac enw da Prydain gartref a thramor. Byddwn yn parhau i wrthwynebu'r toriadau hyn. Nawr, yn fwy nag erioed, dylai'r Deyrnas Unedig fod yn arwain y ffordd wrth fynd i'r afael ag argyfyngau fel newid hinsawdd, Covid-19, a gwrthdaro sy'n effeithio ar gynifer o gymunedau tlotaf y byd.

Meddai Nan Powell-Davies, Cadeirydd Cymorth Cristnogol Cymru:



Credwn fod cyfrifoldeb ar wledydd y Deyrnas Unedig i helpu i ddileu tlodi yn y de byd-eang. Am y tro cyntaf yn 2013, fe gyrhaeddodd y Deyrnas Unedig y nod o wario 0.7% o'r incwm cenedlaethol ar gymorth a gwaith datblygu. Roedd hon yn foment bwysig i bobl y gwledydd hyn – yn rhywbeth oedd yn ehangu ein henw da.

Mae World Vision wedi bod yr un mor ddeifiol: 'Rydym ni'n siomedig iawn fod yr Aelodau Seneddol wedi pleidleisio i beidio â chadw

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Dedfryd o farwolaeth i nifer di-rif o bobl

(parhad o dudalen 1)

cyllideb cymorth y Deyrnas Unedig ar lefel o 0.7%. Bydd hyn yn golygu y bydd mwy o blant mwyaf bregus y byd yn dioddef ac yn marw.'

Ymateb yr enwadau

Mewn datganiad cyhoeddus yn dilyn y bleidlais yn y Senedd, dywedodd Llywydd newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, y Parch Beti Wyn James, oedd wedi bod yn lobïo'r llywodraeth i newid ei meddwl:

Bydd cadarnhau'r toriad yng Nghymorth Tramor y Deyrnas Unedig yn ddedfryd o farwolaeth i bobl ddi-rif mewn gwledydd sy'n dioddef tlodi neu wrthdaro. Mae'n warthus bod

llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi torri ei hymrwymiad i gynnal lefel y cymorth ar 0.7% o'r GDP. Bydd yn cael effaith ddinistriol ar wledydd fel Yemen, lle mae'r argyfwng dyngarol mwyaf yn y byd, gyda miliynau ar drothwy newyn. Adroddwyd yn eang bod y toriad o £4b mewn cymorth yn cael ei ddargyfeirio i'w wario ar amddiffyn. Mae hynny'n gwbl anfoesol.

Dywedodd y Parch Denzil John, Cadeirydd Bwrdd Eglwys a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Undeb Bedyddwyr Cymru:

Mae'n anodd dirnad bod dinasyddion gwledydd Prydain mor dawedog eu hymateb i'r bleidlais ddiweddar yn Nhŷ'r Cyffredin, yn derbyn argymhellad y Llywodraeth i gyfrannu 0.5% yn unig o'r GDP yn hytrach na

chadw at eu hymrwymiad o gyfrannu 0.7% i gefnogi gwledydd tlawd y byd. Onid yw economi Prydain yn ddigon cryf i wynebu holl gostau Covid heb dorri 'nôl ar ein hoblygiadau sylfaenol i gynorthwyo'r economïau gwannaf, gyda'r angen am wasanaethau meddygol effeithiol, cartrefi diogel, a chyflenwadau cyfleus o ddŵr glân. Roedd hi'n braf gweld dau o gyn-brifweinidogion Prydain yn gwrthwynebu'r Llywodraeth. Beth am i eglwys Cymru yn unigol anfon llythyr neu e-bost at Mr Johnson i brotestio?

Mewn ymateb i'r toriad, mae Cymorth Cristnogol wedi sefydlu cronfa i geisio lleihau maint y golled. Am fwy o wybodaeth, ewch i: <https://www.christianaid.org.uk/give/ways-to-donate/0.2-pledge-aid-budget>

Noson Gemau Efailnewydd

Ar ôl 15 mis heb gysylltiad wyneb yn wyneb gyda'n plant, braf o'r diwedd oedd cael cynnal noson gemau ym Mharc Efailnewydd, ger Pwllheli, nos Lun, 28 Mehefin. Er ein bod wedi cael budd mawr o gynnal sesiynau dros Zoom, does dim all gymharu â bod yng nghwmni'r plant go iawn ac nid drwy gyfrwng sgrin.

Oherwydd cyfyngiadau Covid, roedd angen tipyn bach mwy o gynllunio nag arfer er mwyn rhedeg sesiwn ddiogel. Mae'n rhaid cyfaddef fy mod braidd yn ofnus ynglŷn â chynnal gweithgaredd o'r fath ar ôl cymaint o amser i ffwrdd a gyda rheoliadau sy'n anodd i'w deall ar adegau. Diolch i dîm Scripture Union Cymru am eu cymorth a'u cyngor wrth fy helpu i baratoi asesiad risg fyddai'n sicrhau y byddai'r gweithgaredd yn fwy na chydymffurfio â'r rheolau.

Felly, es ati i greu tudalen Eventbrite (eventbrite.co.uk) er mwyn i rieni fedru cofrestru ar-lein ymlaen llaw. Prynais *barrier fencing* fel y gallem neilltuo ardal chwarae yn y parc i ni ein hunain. Prynwyd digon o eli diheintio a weips. Gosodwyd conau er



mwyn sicrhau ymbellhau cymdeithasol. Fe drefnon ni gemau oedd yn lleihau cysylltiad corfforol rhwng y plant a'r defnydd o offer. Er y gall hyn swm fel lot o waith, roedd yn werth ei wneud er mwyn gallu mwynhau noson gyda'r plant.

Felly, ymlaen â ni i'r noson ei hun. Agorwyd y noson gyda gemau egniol megis 'corneli' ac 'uni hoc', a braf oedd cael gweld y plant yn mwynhau rhedeg o gwmpas yn wirion unwaith eto! Ar ôl hyn cafwyd amser am egwyl a chyfle i'r plant cael diod a snack. Yna, cafwyd stori Pedr yn dianc o'r carchar gan Nia Williams. Fe wnaethon ni fachu ar y cyfle i actio'r hanes (o bellter diogel), gyda'r plant yn chwarae rhan y Cristnogion oedd yn gweddïo dros Pedr ac yn synnu wrth ei weld yn ymddangos wrth y drws. Aeth Nia ati i ofyn i'r plant pa bethau roedden nhw eisiau gweddïo amdany'n nhw, a chafwyd atebion oedd yn dangos eu bod wedi meddwl o ddifri am y cwestiwn. Heriodd Nia'r plant nid yn unig i weddïo ond i ddisgwyl i'r Arglwydd ateb eu gweddïau, ac i edrych allan amdany'n nhw. Yna cawsom cyfle i weddïo cyn chwarae'r hen ffefryn 'Hwyaden, Hwyaden, Gŵydd' (y fersiwn digyswll!).

Diolch yn fawr i'r rhieni am eu cefnogaeth dros y flwyddyn anodd ddiweddaraf i weithgareddau ar-lein y clwb ac i'r noson hon. Diolch yn fawr i Bryn a Nia am eu

cymorth a'u cefnogaeth. Diolch hefyd i *paparazzi* EBC, y Parch Gwyn Rhydderch, am fod yn fodlon dod i dynnu lluniau a ffilmio'r noson.

Diolchaf yn bennaf i'r Arglwydd am ei gymorth ef ym mhob agwedd o'r noson ac am y cyfle i symud ymlaen un cam yn ôl, nid i bethau fel roedden nhw ond at rywbeth gwell.

Os hoffech chi ailgysylltu â'ch plant a'ch pobl ifanc ond yn teimlo'n nerfus ynglŷn â hynny, mae cymorth ar gael! Mae'r Tîm Plant ac Ieuenctid ar gael i gynorthwyo a chynghori. Cysylltwch â Mrs Nia Williams (nia.williams@ebcpcw.cymru neu 01758613114) i gael gwybod mwy.

Rydym wedi paratoi rhestr wirio ac asesiad risg safonol 'Covid' i'ch helpu i drefnu digwyddiadau'r tu allan a'r tu mewn yn ddiogel. Bydd y rhain ar gael ar wefan EBC yn ddwyieithog cyn bo hir o dan 'Covid-19'. Hefyd, mae'n werth edrych ar wefan 'Let's reconnect/gyda'n gilydd' gan fod cymaint o gyngor ac adnoddau yno ynglŷn ag ailgysylltu â'ch plant ac ieuenctid. Gwefan wedi ei chreu gan sawl mudiad Cristnogol sy'n gweithio gyda phlant ac ieuenctid yng Nghymru ydyw a dyma'r cyfeiriad: <https://www.letsreconnect.co.uk/cy>

Andrew Settattree






Y Silff Lyfrau



'A'r Tad yn gweiddi, "Bodlon" ...'



Ceir rhai termau diwinyddol yr ystyrir eu bod yn rhai cwbl anhepgor mewn unrhyw gyfieithiad o'r Ysgrifurau neu fynegiant o safbwynt cred. Gyda'r amlycaf o'r termau hynny yw'r gair 'iawn'.

Yr iawn

Ni chofir bob amser mai tair gwaith yn unig y digwydd yn y Testament Newydd yng nghyfieithiad William Morgan, ac er y gallai fod wedi ychwanegu pedwaredd enghraifft yn Hebraidd 2.17, dewisodd yno gyfieithu berf gysylltiol â'r gair 'iawn' â'r ymadrodd 'gwneuthur cymod'.

Deallaf i nifer o bobl sy'n arddel y disgrifiad 'efengylaidd' ymwrthod â chyfieithiad y Beibl Cymraeg Newydd pan ymddangosodd y fersiwn cyntaf o'r Testament Newydd yn 1975 am ei fod wedi hepgor y gair 'iawn' yn y manau hyn.

Ond, ysywaeth, erbyn cyhoeddi'r cyfieithiad o'r Beibl cyfan yn 1988 daethpwyd i gyfaddawd ar y mater, a gosodwyd y gair 'iawn' mewn troednodyn yn y tri man lle y'i cafwyd ym Meibl Morgan.


Satisfactio

Gyda llaw, iddo ef, mae'n debyg, y dylid priodoli'r cyfieithiad 'iawn', sydd, yn ôl Dr Isaac Thomas, yn unigryw iddo, yn y manau hyn. Mynd yn ôl i syniad Anselm o ddechongli marwolaeth Crist yn nhermau'r *satisfactio* oedd yn ddyledus i arglwydd ffiwdal pan oedd wedi ei ddianrheddu mewn unrhyw fodd a wnaeth Morgan.

Cymod

Yn y gyfrol fach y carwn dynnu sylw fy narllenwyr ati y tro hwn mae'r tri sy'n cyfrannu iddi'n gytûn na all unrhyw un trosiad neu ddamcaniaeth wneud cyfiawnder â'r hyn y mae'r groes yn ei gyflawni.

Teitl y gyfrol yw: *What Did the Cross Accomplish? A Conversation about the Atonement* (Westminster: John Knox Press, 2021; £19; 120pp; 978-0664265878). Mae'n ymgorffori deialog rhwng dau ysgolhaig Seisnig – N. T. Wright a Simon Gathercole – dan gadeiryddiaeth yr Americanwr Robert B. Stewart. Digwyddodd y ddeialog ym mis Tachwedd 2017 yn sefydliad y cadeirydd, Coleg Diwinyddol y Bedyddwyr yn New Orleans.**



N. T. Wright

Ar ddechrau'r gyfrol ceir papur ganddo'n cyflwyno'i ddarlun efo amcan diwinyddiaeth, gan bwysleisio bod yn rhaid iddi gymryd safbwynt sy'n fyd-olwg: dyna a wêl yng ngwaith Wright lle cysylltir hanes ac iaith, diwinyddiaeth a moesoldeb, a lle dangosir bod y greadigaeth, achubiaeth, eschatoleg a chenhadaeth i gyd yn rhan o'r un weledigaeth fawr ar gyfer bywyd. Tasg y diwinydd yw eu cysylltu â'i gilydd.

Yn ail ran ei gyflwyniad mae'n datgan mai perfformiadol yn hytrach na gosodiadol oedd y ddysgeidiaeth gynharaf am yr 'iawn', h.y. bob tro yr oedd disgyblion cyntaf Iesu yn cyfranogi o Swper yr Arglwydd, roeddnt wedi'u hamgylchynu â delweddau'n ymwneud â'r cymod.

Yna rhoddir cyfle i'r ddau Sais gyflwyno'u syniadau am yr iawn.

Yr 'iawn' a'r ecsodus newydd

Fel y nodwyd eisoes, amcan Wright yw gosod yr athrawiaeth oddi mewn i gynfas eang, ysgrythurol. Dechreuwa gyda datganiad fod y gaethglud ar ben a'r ecsodus newydd wedi cyrraedd gan arwain at sefydlu teyrnas Dduw sy'n drech na phwerau'r tywyllwch. Gwiredir hyn drwy farwolaeth gynrychioliadol, ddirprwyol Meseia Israel. Ar yr un pryd rhydd y groes esiampl foesol o gariad dioddefus a datguddio pwy mewn gwirionedd oedd, sydd ac a fydd y Duw sy'n Greawdwr. Felly, mae marwolaeth Iesu yn lansio, mewn gweithred chwyldroadol, y

byd newydd lle y gall y greadigaeth newydd ffynnu. Sicrheir y cyfanfyd o fuddugoliaeth Duw dros bob eilunaddoliaeth a thros angau ei hun. Cred fod y naratif hwn yn dangos sut y mae gwahanol elfennau a gysylltir ag athrawiaeth yr iawn yn dibynnu ar ei gilydd: y darlun o'r *Christus Victor* (Crist y Conquerwr); y ddamcaniaeth ddirprwyol; y cysyniad o Iesu'n gynrychiolydd, yn ymgorffori ei bobl; a'r portread o'i farwolaeth yn esiampl foesol.



Simon Gathercole

Cymodi

Rhydd Gathercole bwyslais arbennig ar amcan Duw yn cymodi pobl ag ef ei hun: hyn a fydd yn y diwedd yn dwyn gogoniant i'w enw. Ar yr un pryd, fel Wright, nid yw'n fodlon gwneud un pwyslais yn ganolog a gwrthio elfennau eraill i'r naill ochr, fel petai. Eto, myn fod yr elfen ddirprwyol yn rhan annatod o'r hyn a olygir wrth athrawiaeth yr iawn yn y Testament Newydd. Dyna'n wir yw prif fyrdrwn ei gyfrol *Defending Substitution: An Essay on Atonement in Paul* (2015).

Dilynir y datganiadau agoriadol hyn gan drafodaeth rhyngddynt. Yn ail ran y gyfrol ceir ffrwyth y cyfle a gafodd aelodau'r gynulleidfa yn New Orleans i ofyn cwestiynau i'r ddau, cryn bymtheg ohonynt.

Gan fod y ddau ysgolhaig efengylaidd hyn yn arddel safbwyntiau pur debyg i'w gilydd, ni cheir y math o wrthdaro y byddai rhywun yn disgwyl ei gael mewn sefyllfa fel hon. Eto, wedi dweud hyn, yn sicr y mae yma lawer i fwydo meddyliau'r sawl a fyn ddeall holl rychwant athrawiaeth yr iawn.

Ar ddiwedd y gyfrol cynhwysodd y cadeirydd restr o lyfrau sy'n ymdrin ymhellach â'r pwnc, gyda nodiadau byr ar eu cynnwys a'u gwerth.

John Tudno Williams

** Gellir gweld recordiad o'r drafodaeth wreiddiol ar: <https://www.facebook.com/NOBTS/videos/10156270176581490>

Gol. Carem ddiolch i'r Athro John Tudno Williams am ei gyfraniadau misol i'r *Goleuad* ac yn awr i'r *Cenn@d*. Hwn yw trigeinfed adolygiad o'i eiddo. Diolchwn iddo am ei barodrwydd i rannu ei ddysg gyda ni fel hyn.

‘CWM wedi dod yn bell yn ystod y degawd diwethaf’

Eglwysi o bedwar ban byd yn ffarwelio ag Ysgrifennydd Cyffredinol CWM

Ganol mis Mehefin, yn eu cyfarfod cyffredinol blynyddol dros y we, fe ffarweliodd 32 o eglwysi ar bum cyfandir sy'n bartneriaid ac yn aelodau o'r mudiad CWM (Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang), efo'u Hysgrifennydd Cyffredinol, y Parch Ddr Colin I. Cowan.


Llywyddwyd y cyfarfodydd dros dridiau gan y Parch Nan W. Powell-Davies o Eglwys Bresbyteraidd Cymru. 'Roedd yn rhaid i bawb un ai aros ar eu traed yn hwyr neu godi'n eithriadol o gynnar i ymuno efo'i gilydd yn yr un cyfarfod, oedd yn cael ei gynnal am hanner dydd, amser Singapore!' meddai. 'Wrth inni ffarwelio ag ef, bu llawer o ddiolch i Colin am ei ddygnwch a'i bendantwydd wrth roi penderfyniadau'r Cyngor ar waith.'

Wrth ymateb, fe ddiolchodd Dr Colin i'r cynrychiolwyr o Gymry am eu cymorth a'u trefniadau wrth iddo ef a holl Ysgrifenyddion Cyffredinol yr eglwysi sy'n aelodau o CWM gael cyfle i dderbyn croeso gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghaerdydd yn 2017. Yn ystod yr ymweliad hwnnw fe gawsant ymweld â Phantycelyn, cartref y Pêr Ganiedydd,

a llefydd eraill o ddiddordeb yn hanes ein heglwysi yng Nghymru. Dadlennol oedd sgwrs y Parch Watcyn James yno ar y pryd am berthynas ac anogaeth William Williams a Chymry amlwg eraill i'r mudiad cenhadol byd-eang (gweler y llun).

Daw'r Dr Colin yn wreiddiol o Eglwys Unedig Jamaica ac Ynysoedd Cayman, a bu ef a'i deulu'n byw yn Singapore, lle mae prif bencadlys y mudiad bellach, ers degawd ei dymor fel Ysgrifennydd Cyffredinol. Un o'r cyfraniadau pennaf y bydd Dr Cowan yn cael ei gofio amdano, ac sy'n amserol iawn erbyn hyn, fydd y cynllun 'Etifeddiaeth Caethwasiaeth / Legacies of Slavery'. Bu'r cynllun, a sefydlwyd yn 2017, yn edrych ar ran yr eglwys yng ngorthrwm pobl dduon a chenchedloedd eraill, a hiliaeth yn gyffredinol. Yn ystod mis Tachwedd eleni bydd ymddiheuriadau cyhoeddus yn cael eu cynnig ar draws y byd gan yr eglwysi sy'n bartneriaid o CWM.

Yn y rhifyn diweddaraf o gylchgrawn y mudiad, *INSiGHT*, mae'r Dr Colin yn edrych yn ôl ar ei gyfnod yn arwain dros y deng mlynedd diwethaf. Dywed:



'Bu'r daith ers dechrau Ionawr 2011 yn un ddadlennol ac rydw i wedi dysgu llawer oddi wrthi am yr eglwys, am y mudiad eciwmenaidd, am bobl, ac amdanaf fi fy hun. Cafodd fy mywyd ei fendithio'n fawr gan y siwrnai hon, a diolchaf i holl deulu CWM am yr ysbryd o haelioni a'r ewyllys da a fu'n brif nodwedd fy mhrofiad dros y blynyddoedd hyn.

'Mae CWM wedi dod yn bell yn ystod y degawd diwethaf. Rydyn ni wedi cyflawni llawer gyda'n gilydd ac mae yna lawer i'w ddathlu. Cawsom ein hysbrydoli, ac rydym wedi ysbrydoli eraill i fentro breuddwydio am fyd gwahanol. Mae hyn ynddo'i hun yn arwydd fod gobaith yn fyw – anfonlonrwydd a phenderfyniad yn dod ynghyd er mwyn gwrthsefyll grymoedd marwolaeth a dinistr, a chodi i fywyd gyda Christ. Bu CWM ar lwybr beiddgar a mentrus; mentrwch chithau freuddwydio, mentrwch obeithio, mentrwch fod – yn radical, yn chwyldroadol, yn barod i wrthsefyll. Ffordd arall yw hon o ddweud ein bod yn ddisgyblion i Iesu, wedi ymroi i gerdded mewn ufudd-dod yn ffordd Iesu.'

Mae'n cael ei olyn, fel y nodwyd yn *Cenn@d* yn gynharach eleni, gan y Parch Ddr Jooseup Keum o Eglwys Bresbyteraidd Korea.

Ceir erthygl dreiddgar gan Dr Colin ar berthynas yr eglwys a chymdeithas yng nghylchgrawn cyfredol y mudiad hefyd (Mehefin 2021). Dilynwch y ddolen hon i'w darllen: [INSiGHT – Council for World Mission \(cwmission.org\)](https://www.cwmission.org)



Watcyn James ym Mhantycelyn gyda Colin Cowan ac Ysgrifenyddion Cyffredinol Eglwysi CWM.

Lle i enaid gael llonydd

Yn ystod yr haf byddwn yn cael ein tywys gan nifer o gyfranwyr i fannau adnabyddus, a rhai llai adnabyddus. Mannau ydyn nhw sydd ag arwyddocâd neilltuol, lle caiff y cyfranwyr 'le i enaid gael llonydd'. Mannau ydyn nhw y medrwn ni ymweld â nhw yn ddaearyddol ein hunain. Diolchwn i'n cyfranwyr am rannu eu profiadau â ni. **Menna Green**, y Bala, sy'n ein tywys ar ein taith gyntaf.

Pan ofynnwyd i mi a fuaswn yn paratoi'r erthygl yma ar 'Lle i enaid gael llonydd', meddyliais i mi fy hun, 'Wel dwi'n cael tipyn o lonyddwch bob dydd, gan fy mod yn byw ar ben fy hun, a hynny mewn tawelwch llwyr ar adegaw.'

Ar ben hynny wedyn, daeth y cyfnod o hunanynysu oherwydd Covid-19 i'n rhan ni i gyd. Roedd hynny'n golygu methu cymdeithasu a chyfarfod i gydaddoli, cael sgwrs a thrafodaeth wyneb yn wyneb. Sgwrs ar y ffôn yn unig a gafwyd bryd hynny.

Oes, mae yna ddigon o gyfle i'm henaid gael llonydd yma yn fy nghartref.

Ond, wedi meddwl, sylweddolaf nad wyf yn gwneud y defnydd gorau o'r tawelwch a'r llonyddwch bob tro. Bob bore rwy'n treulio ychydig amser mewn defosiwn ar ddechrau'r dydd, a hynny yn fy ngwely.



Wrth gerdded yn yr ardd neu wrth ochr Llyn Tegid a gweld harddwch natur, gwaith dwylo Duw, o'm cwrpas, neu wrth deithio o le i le yn y car a gweld y golygfeydd hyfryd sydd yn ein gwlad, teimlaf fy enaid yn llawenhau yn Nuw.

Rhaid cofio bod Duw ym mhob man, a gallwn droi ato a'i addoli lle bynnag y byddwn, beth bynnag yw'r achlysur neu'r amgylchiadau, ei fod wrth law bob amser, yn barod i wrando arnom, pwy bynnag ydym a pha gyflwr bynnag yr ydym ynddo.

Ond oes, mae gennyf un lle sy'n arbennig i mi, lle rwy'n fwy ymwybodol o agosrwydd Duw nag yn unman arall.

Os nad ydych wedi bod yn Nhrefeca, fyddwch chi ddim yn gwybod am y man arbennig sydd gennyf o dan sylw.

Dyma'r fan y byddaf yn ceisio treulio ychydig amser ynddo bob tro y byddaf yn ymweld â'r ganolfan arbennig yma – y Capel Bach. Hen adeilad, coetsiws, yn gysylltiedig â Threfeca ers dyddiau Howel Harris, ond a addaswyd pan gafodd Ronwy Rogers, oedd yn warden yno ar y pryd, weledigaeth i'w droi'n gapel. Man tawel ydyw i fynd o'r neilltu iddo os ydych ar ymweliad â'r ganolfan arbennig yma.

Fel mae ei enw'n awgrymu, mae'n fychan, ond mae'n lle sy'n llawn i'w mylon o bresenoldeb Duw. Mae'r tawelwch o'i mewn i'w glywed a phresenoldeb Duw i'w deimlo yn agos, bron eich bod yn gallu ei gyffwrdd.

Dyma'r lle mae fy enaid yn profi gwir lonyddwch. Mae bod yn mhresenoldeb Duw



yn y lle yma'n brofiad arbennig iawn i mi. Pan fyddaf yn ymweld â Threfeca, os yw'n bosibl byddaf yn ceisio treulio ychydig funudau'r peth cyntaf yn y bore yn dawel yno'n myfyrio. A rhaid imi ddweud fy mod yn derbyn rhywbeth sy'n gymorth ac yn ddylanwad ar weddill fy niwrnod.

Pan gynhelir gwasanaeth cymun yno, mae bod yn rhan o hynny'n brofiad arbennig arall; mae'n brofiad nas ceir yn unman arall, yn fy nhyb i.

Mae'n amlwg fod blynyddoedd o weddiau wedi eu hoffrymu yno, a'r rheini wedi gadael eu dylanwad ar yr adeilad a'i awyrgylch. Dyma'r lle mae fy enaid i'n cael gwir lonyddwch.

Diolch i Dduw am weledigaeth Ronwy Rogers ac i bawb sydd wedi treulio amser yno'n gweddio, ac i Dduw yn ei Ysbryd am lenwi'r lle â'i bresenoldeb.

Yr Eglwys hybrid – diweddariad

Yn dilyn yr erthygl am yr 'Eglwys Hybrid' yn rhifyn wythnos yr diwethaf o *Cenn@d*, daeth y neges galonogol isod gan Gwenan Creunant o Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Rwy'n siŵr y bydd hyn o ddiddordeb i lawer o eglwysi a fydd am fuddsoddi mewn offer ar gyfer y dyfodol. Mae swm o hyd at £2,000 ar gael, ac maent yn cynnig grant o 50% ar unrhyw wariant a wneir.


Offer ac Adnoddau i Eglwysi

Mae Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn cynnig grantiau i helpu i brynu offer neu adnoddau costus ar gyfer yr eglwys, offer megis sgriniau, offer technegol neu gerddorol, neu adnoddau ar gyfer

prosiectau cydenwadol neu brosiectau fydd yn adeiladu gwell cyswllt â'r gymuned. Rhaid bod yr eglwys sy'n gwneud cais yn cynnal gwasanaethau cyson, ac yn rhan o strwythur enwadol yng Nghymru neu wedi'i chofrestru fel elusen ar wahân.

Mae Ymddiriedolwyr Pantyfedwen yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn i drafod ceisiadau, a hynny fel arfer ym mis Mawrth, mis Gorffennaf a mis Tachwedd. Bydd angen i'r cais gyrraedd Swyddfa'r Ymddiriedolaeth o leiaf fis cyn y cyfarfod.

Os hoffech wneud cais am grant i brynu offer neu adnoddau i'ch eglwys, gofynnwn i chi ddarllen y canllawiau yn ofalus cyn



gwneud cais. Gellir lawrlwytho'r canllawiau a'r ffurflen gais drwy ymweld â gwefan yr elusen. Cliciwch isod:

<https://www.jamespantyfedwen.cymru/equipment-and-resources.html>

Yr Ysbryd Glân – R Tudur Jones

Ffrwyth yr Ysbryd 4 – Caru Crist



Dros yr haf fe fyddwn yn cyflwyno penodau o glasur R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, a fu'n llyfr gosod i ddosbarthiadau oedolion yr Ysgol Sul ar gyfer 1972.

Ni fyddai unrhyw amlinelliad o'r cariad a dywalltwyd yn ein calonnau gan yr Ysbryd Glân yn gyflawn heb inni gyfeirio at garu Crist. Trwy'r canrifoedd bu caru Crist yn elfen ganolog a chreadigol yn y bywyd Cristnogol. Mewn defosiwn y mae'n un o'r pethau sy'n torri ar draws y ffiniau enwadol. Yn y bymthegfed ganrif, dyma Thomas à Kempis yn mynegi ystyr cyfeillgarwch Crist iddo:

Byd anghyfforddus ydyw hwn, heb unrhyw gyfaill ffyddlon i'n diddanu. Ac yn wir nid oes un cyfaill ffyddlonach na'r Iesu, ac os colli ei gymdeithas ef truan a galarus iawn yw dy gyflwr. Am hynny na hoffa neb, nac ymddiried yn neb ond ynddo ef. Haws diodde digofaint yr holl fyd na digofaint yr Iesu: Am hynny na châr neb yn debyg iddo ef.

Thomas à Kempis (1379–1471), *Patrwm y Gwir Gristion* (cyfieithiad 1723 wedi'i adagraffu ym 1908, Gwasg Prifysgol Cymru), 96–7.

Ffurf ddiddorol ar fawrygu'r Iesu yw'r defosiwn sy'n canoli ar ei enw, ac ar lythrennau'i enw. Yn y traddodiad Catholig fe'i cawn, er enghraifft, yn yr emyn enwog 'Jesu dulcis memoria' a gyfieithwyd i'r Saesneg gan Edward Caswell, 'Jesus, the very thought of Thee, With sweetness fills the breast.' Yn wir, yr un sylwedd sydd yn emyn Pantycelyn,

Iesu, difyrrwch f'enaid drud
Yw edrych ar dy wedd,
Ac mae llythrennau d'enw pur,
Yn fywyd ac yn hedd.

Mewn arlunio yr un modd, cawn y Sbaenwr Groegaidd El Greco yn mynegi'r un defosiwn yn ei ddarlun, 'Addoli'r enw sanctaidd'.

Yn y traddodiad Methodistiaidd daeth moli Iesu Grist fel Oen Duw'n boblogaidd. Er bod oen yn cario croes yn symbol poblogaidd byth er cyfnod yr Eglwys Fore, y Morafiaid a'i gwnaeth yn boblogaidd mewn Protestaniaeth fodern. Yn eu canolfan hwy ar diroedd y Cownt Zinzendorf yn Herrnhut ym Mohemia, neilltuid amserau

penodedig i 'foli'r Oen'. Ar brydiau ceid diwrnod cyfan, neu noson gyfan, o ganu mawl. Yn wir, dyma un o wreiddiau cyntefig y gymanfa ganu. A thrwy'r cysylltiad rhwng y Morafiaid a'r Methodistiaid, daeth 'moli'r Oen' i'n hemynau ninnau:

Moli'r Oen fu ar Galfaria –
Dyna waith na dderfydd byth.

Mynegiant arall eto o'r defosiwn hwn at Berson Crist oedd esbonio Cân y Caniadau fel pryddest yn disgrifio cariad Crist at ei Eglwys a chariad yr Eglwys at Grist. Âi'r traddodiad hwn yn ôl i ddechreuadau Cristnogaeth a rhoddwyd mynegiant cyfoethog iddo yn ei bregethau gan Bernard o Clairvaux (1090–1150). Yng Nghymru Brotestannaidd yr un modd parhaodd y traddodiad nid yn unig yng ngwaith yr emynwyr ond yng nghyfieithiadau mydryddol gwyr fel Thomas Baddy a John Hughes, Pontrobert.

Yn meddwl Iesu Grist, y mae ei garu Ef wedi'i gysylltu'n annatod â charu Duw. Mae Mathew yn croniclo dywediad Iesu Grist, 'Yr hwn sydd yn caru tad neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng ohonof fi' ac yn mynd yn ei flaen i gofnodi'r dywediad, 'a'r neb sydd yn fy nerbyn i, sydd yn derbyn yr hwn a'm danfonodd i' (Mathew 10:37,40). Ac y mae Efrogyl loan yn cadarnhau hyn, 'Pe Duw fyddai eich tad, chwi a'm carech i; canys oddi wrth Dduw y deilliais, ac y deuthum i' (loan 8:42). Agosodir y cysylltiad rhwng cariad at Grist a chael ein caru gan Dduw yn y gair, 'a'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i' (loan 14:21). Neu, a gosod y peth o chwith, 'Fel y carodd y Tad fi, felly y cerais innau chwithau; arhoswch yn fy nghariad i' (loan 15:9). Ac y mae caru Crist yn gorffwys ar waith a thystiolaeth y Diddanydd (loan 14:23–6). Arwyddocâd pwysleisio'r cysylltiadau hyn rhwng Iesu Grist a Duw yw fod tuedd mewn rhai ffurfiau o Gristnogaeth fodern i ddadlau y gallwn bellach hepgor y gair Duw – a'r syniad. Yr enw a roir ar y math yma o Gristnogaeth ambell dro yw 'Iesuiddiaeth'. Eir mor bell hyd yn oed â chyhoeddi fod Duw wedi

marw a bod ei le'n awr yn cael ei lenwi'n gyfan gwbl gan Iesu o Nasareth. Ffurf ar seciwlariaeth yw hon eto trwy gyfyngu Duw i'r person hanesyddol a ddisgrifir ar dudalennau'r Testament Newydd. Er hynny, atheistiaeth ydyw ac y mae mabwysiadu'r safbwynt yn golygu gwella ar ddsgeidiaeth yr Iesu hanesyddol. A Duw rhyfedd yw hwnnw y gall dynion wella ar ei ddsgeidiaeth.

Un o ogoniannau'r bywyd Cristnogol yw caru Crist – 'yr hwn, er nas gwelsoch, yr ydych yn ei garu' (1 Pedr 1:8). Y mae ymhel â Christnogaeth heb garu Crist yn dwyn anathema ar ddynion (1 Corinthaidd 16:22). Mae caru Crist yn golygu codi croes a'i ddilyn. Fel y dywed Thomas à Kempis, 'Er cymaint sydd yn chwennych teyrnasu gyda Christ yn y nefoedd, eto nid oes ond ychydig yn caru ei Groes ef, ac yn barod i ddiodde gydag ef ar y ddaear' (td. 107). Mae ei garu'n golygu ufuddhau iddo: 'Yr hwn sydd a'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i' (loan 14:21). Ac wrth gwrs, ni ellir cadw'r gorchymynion heb eu gwybod. Ac o wybod, gweithredu: 'na charwn ar air, nac ar dafod yn unig, eithr mewn gweithred a gwirionedd' (1 loan 3:18).

Mae caru Crist yn golygu mawr ofal dros ei braidd. Er bod y sgwrs rhwng yr Arglwydd atgyfodedig a Phedr wedi'i defnyddio gan yr eglwys Catholig i gyfiawnhau rhoi safle arbennig i Pedr, nid rhywbeth neilltuol iddo ef nac i'r apostolion chwaith oedd caru praid Duw. Trwy'r epistolau, pwysleisir y cariad sydd i ffynnu rhwng disgyblion Iesu Grist a'i gilydd a hwnnw drachefn yn fynegiant o'u cariad at Grist.

Gwir mai bregus yw ein cariad ni bawb ohonom, fel cariad Pedr (loan 21:17). Ond y mae ein cariad ni ato Ef yn gorffwys ar ei gariad Ef atom ni. Ac y mae'r cariad hwnnw'n ein gwarchod rhag pob gelyn. Nid oes ddim a'n gwahana ni 'oddi wrth gariad Duw, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd' (Rhufeiniaid 8:34–9). Ddim hyd yn oed gwendid ein cariad ni.

Darlenniadau: loan 21:15–17; Mathew 10:37–40; Rhufeiniaid 8:34–9; loan 14:15–26.

Llyfrau:

Pregeth brydferth Edward Morgan, Dyffryn, 'Iesu Grist yn un,' *Pregethau* II (1882), 1013–33; Islwyn, 'Ardderchowgrwydd Gwybodaeth Crist Iesu,' *Pregethau* (1896), 209–217; Dafydd Jones, Treborth, 'Caru Crist,' *Pregethau* II, 319–331; John Owen, *Person Crist* (Wrecsam, 1878), yn arbennig pen. xiv; A. J. Lewis, *Zinzendorf* (1962), pen iv – i roi peth o'r cefndir i thema 'caru Crist' ymhlith y Methodistiaid cynnar; Julian, *Dictionary of Hymnology*, o dan 'Jesu Dulcis Memoria'. Ond y chwarel gyfoethocaf am ddefnyddiau ar y thema hon yw ein hemynau – yn arbennig Ann Griffiths a Williams Pantycelyn. Mae *Golwg ar Deyrnas Crist* yn fynegiant digymar yn ein hiaith o 'garu Crist'. Emrys ap Iwan, *Homiliau* (1906), 9–14.



O Gefn Gwlad



Chwi yw halen y ddaear

Y tro diwethaf cyfeiriais at eiriau Crist, 'Chwi yw goleuni'r byd'. Ond mae geiriau eraill yn dod o'u blaenau yn Efengyl Mathew, sef: 'Chwi yw halen y ddaear' – dyfyniad sy'n dweud yn glir wrthym beth yw ein dyletswydd fel Cristnogion yn y byd a'r gymdeithas rydym yn rhan ohoni. 'Arglwydd Iesu, dysg im gerdded / drwy y byd yn ôl dy droed,' meddai'r emyn, a bydd ystyried y chwe pwrpas neu ddiben sydd i halen yn arwyddbyst clir i'r ffordd y dylem gerdded yn y byd.

Mae halen yn **cadw bwyd**. Mae'n siŵr fod rhai ohonoch fel fi yn cofio cyfnod y lladd mochyn ar ffermydd, a hongian y cig uwchben y llawr, nid ar unwaith ond ar ôl ei halltu'n ofalus a thrylwyr er mwyn iddo gadw rhag mynd yn ddrwg. Mae i ninnau'r ddyletswydd hon yn ein cymdeithas, sef ei diogelu rhag y drwg, cadw'r safon mor uchel ag y gallwn mewn ymarweddiad ac agweddau.

Mae halen yn **gwella gwead** bwyd, yn gwneud iddo edrych yn well, fe ddywedir, yn arbennig bara a chig. Mae i ninnau'r ddyletswydd hon yn ein bywyd. Creaduriaid cymdeithasol ydym ac mae'r ynysu gorfodol, pandemaidd, wedi pwysleisio hyn i ni. Mewn cymdeithas yr ydym yn byw, unigolion mewn cymdeithas yw pob un ohonom. Dylai ein presenoldeb mewn unrhyw 'gymdeithas' gael dylanwad ar wead y gymdeithas honno. Dylem fod fel lefain yn y blawd – disgrifiad arall ohonom fel Cristnogion.

Mae halen yn **gwella blas**. Dyma'i brif bwrpas yn hanes pawb ohonom, y pwrpas poblogaidd. Diflas iawn yw llawer o'n bwyd heb halen, a dyma'r agwedd gaiff sylw yn y Testament Newydd. Gwyliwn er hynny, gan y gall gormod o halen ddifetha'r blas. Mae'n bwysig ein bod fel Cristnogion, yn ein hymwneud â phawb arall, yn gwybod lle i dynnu'r llinell, pryd i ymatal. Mae cael blas ar fyw yn bwysig, a chafodd sylw mewn sawl emyn. Mi gofiwch yr un mwyaf adnabyddus, dwi'n siŵr – rwyf wedi defnyddio'r un dyfyniad ohono o'r blaen fis neu ddau yn ôl:

Tydi a wnaeth y wyrth, o Grist Fab Duw,
Tydi a roddai inni flas ar fyw.

A does raid i mi ddweud dim mwy amdano
ond dyfynnu pennill gan y Pêr Ganiedydd:

Gwna ni fel halen trwy dy ras,
Yn wyn, yn beraidd iawn ei flas,
Yn foddion yn dy law o hyd
I dynnu'r adflas sy ar y byd.

Ydi'r emyn hwn yn *Caneuon Ffydd*? Nag ydi, siŵr!

Mae halen yn **ffynhonnell maeth**. 'Chydig iawn glywn ni am hynny y dyddiau yma – clywn lawer mwy am effeithiau drwg gormod o halen. Ond y ffaith yw fod halen yn gwbl angenrheidiol i'r corff: mae'n ei atgyfnerthu, ac ni allwn gwneud hebddo. Mae presenoldeb Cristnogion mewn cymdeithas yn cryfhau ac yn nerthu'r gymdeithas honno, ac yn rhoi pwrpas a chyfeiriad iddi.



Christina Rumpf ar Unsplash

Mae halen yn **glymwr**. Dyma nodwedd debyg iawn i wella'r gwead. Ond mae'n golygu mwy na hynny: mae'n gallu cadw bwyd efo'i gilydd, bara a selsig – ac enwi dau o'r bwydydd y mae'n chwarae rhan bwysig ynddynt. Dyma un o'n dyletswyddau ninnau mewn cymdeithas: ein clymu'n un, a hynny'n aml mewn cymdeithas sydd mewn peryg o hollti'n ddau. Pan dynnir pobl at ei gilydd mewn teulu neu gymdeithas, mae yna botensial am anghytuno a hollti. Ein dyletswydd yw ceisio cadw cymdeithas efo'i gilydd, esmwytháu pob anghytuno ac ymwahanu, creu harmoni lle mae unrhyw ddisgord.

Mae halen yn **gwella lliw**: mae'n dyfnhau lliwiau mewn bwyd, yn gwneud iddynt ymddangos yn fwy clir. Bodolaeth ddi-liw sy gan laweroedd yn ein cymdeithas heddiw. Mae llawer yn ei gael yn fwrn, yn ddi-raen, yn anodd ei wynebu. Mae gennym ddyletswydd i roi sbarc ym mywydau pobl, i'w helpu i sylweddoli bod bywyd yn werth ei fyw. Ond un gair o gyngor. Allwn ni ddim rhoi lliw ar fywydau neb oni bai bod lliw yn ein bywydau ni. Dyw mynd o gwmpas yn bruddaidd ddigalon am fod yr achos yn wan ac yn gwanio yn gwneud dim lles i neb. Go brin y gallwn fod yn lladmeryddion llawenydd os ydym yn ddigalon ein hunain!

Ydym, rydym mewn lleiafrif. Ond cofiwn, fel yr halen yn y bwyd, yn ei brinder y mae ei nerth, a phan mae o'n brin y mae'n gwneud ei waith.

Elfyn Pritchard
Sarnau

Gyfeillion y Cwlwm!

Fe ddaeth yn amser paratoi rhifyn Medi o'r *Cwlwm*, papur mudiad chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru. A safio i'r golygydd (fi!) gael panics, fe fyddwn yn hoffi gofyn – yn garedig ac yn gynnar i chi – am unrhyw stwff yr hoffech weld ei gyhoeddi yn eich cylchgrawn bach. Felly, cerddi, erthyglau, storïau, hanes digwyddiadau, profiadau personol, ryseitiau, beth bynnag hoffech ei weld mewn print, a fydddech cystal â'i anfon ataf? Byddai llun neu ddau yn dra derbyniol hefyd. Yr eiddoch mewn ffydd, Einir.

Y cyfeiriad arferol felly: einir.jones@yahoo.co.uk neu italfryn@yahoo.co.uk;

neu, i bobl stamp ac amlen:

Einir Jones, Carn Ingli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman, Sir Gâr. SA18 2BT

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Rho imi'r weledigaeth fawr

Emyn 541 – 'O Fab y Dyn'

Darlenniad 1

Salm 1 – 'Nid oes Duw'

Gweddï

Arglwydd, rydym yn byw yng nghanol oes sy'n crwydro'n ffôl gan ddatgan 'Nid oes Duw'. Mae 'pawb ar gyfeiliorn' ac yn byw yn ôl eu doethineb eu hunain. Os yw'r anghyfiawnder a'r llygredd yn loes i ni, cymaint mwy yw i ti, O Dad Sanctaidd. Ond crwydro mae fy nghalon innau hefyd. Fy ngweddï yw:

Rho imi'r weledigaeth fawr a'm try
o'm crwydro ffôl
i'th ddilyn hyd y llwybrau dyrys, du
heb sylu'n ôl;
a moes dy law i mi'r eiddilaf un,
ac arwain fi i mewn i'th fyd dy hun.
Amen.

Darlenniad 2

2 Samuel 11:1–15 – Dafydd a Bathseba

Myfyrdod

Daliwch ar eiriau'r Salmydd yn eich meddwl wrth ddarllen hanes Dafydd a Bathseba. Mae cymaint yn yr hanes sy'n dangos mai ffaledig yw arwyr meidrol y Beibl. Does dim ymdrech gan yr awdur i guddio beiau'r brenin rhag y werin; yn wir, fe gaiff ei feirniadu'n hallt gan Dduw drwy Nathan y proffwyd (2 Samuel 11:1–14). Eto, yn gyson, mae Dafydd yn cael ei ddyrchafu fel enghraifft o'r brenin delfrydol; yn wir, caiff y clod rhyfeddol yma: 'Cefais Ddafydd fab Jesse yn ŵr wrth fodd fy nghalon' (Actau 13:22; 1 Samuel 13:14).

Os oedd Dafydd yn medru mynd ar gyfeiliorn gymaint â hyn, pa obaith sydd i'r gweddïll ohonom?

Dyma oedd gan y Salmydd mewn golwg pan ddywedodd: "Dywed yr ynyd yn ei galon, 'Nid oes Duw.' Gwnânt weithredoedd llygreddig a ffaidd; nid oes un a wna ddaioni" (Salm 14:1). Nid cyfeirio at anffyddiaeth athronyddol am fodolaeth duwdod yr oedd, ond am fyw gan anwybyddu Duw. Ym moment ei demtio, mae Dafydd yn parcio'i ffydd ar un ochr, gan gofleidio 'byw i'r munud' a chau ei lygaid i'r goblygiadau. Hynny yw, mae'n caledu ei galon i Dduw, fel Pharo gynt. Dyma sy'n ei alluogi i gymryd

y camau erchyll yn erbyn Ureia yr Hethiad. Does syndod, felly, fod y Salmydd yn gorffen drwy bledio: 'O na ddôi gwaredigaeth i Israel o Seion!' Beth nad yw ein clustiau Cymreig yn ei glywed yw mai 'gwaredigaeth' yma yw 'yeshuat' sy'n esbonio i ni 'gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau' (Mathew 1:21).

Ni welodd y Salmydd heibio adfer llwyddiant ei bobl ei hun, ond fe ddown yn awr at ddigelwch mawr yr Efengyl.

Gweddï

Maddau ni, O Dduw, a gwared ni rhag byw fel pe na bait yn bod, gan fyw i'n chwantau a dilyn cyfeiliorni ein calonnau caled:
Rho imi'r weledigaeth fawr a'm try
o'm crwydro ffôl
i'th ddilyn hyd y llwybrau dyrys, du
heb sylu'n ôl;
a moes dy law i mi'r eiddilaf un,
ac arwain fi i mewn i'th fyd dy hun.
Amen.

Darlenniad 3

Effesiaid 3:14–21 – Crist yn preswyllo yn ein calonnau

Myfyrdod

Mae Paul yn dechrau'r bennod hon gan bwysleisio 'digelwch Crist', sef bod y waredigaeth y plediodd y Salmydd amdani wedi dod yn Iesu, a'i fod wedi ei hymestyn i'n cynnwys ni oedd gynt ymhell. Rydym 'yn gydetifeddion, yn gydaelodau o'r corff, ac yn gydygyfranogion o'r addewid yng Nghrist Iesu trwy'r Efengyl' (3:6). Yn y darlenniad yma, daw'r cyfan sy'n gynnwysiedig yn Effesiaid 1 a 2 i lenwi ei weddi drosom ni sy'n credu yn Iesu.

Yn gyferbyniad llwyr i'r Salmydd, mae Paul yn plygu ei liniau gerbron y Tad ac yn gweddïo 'ar i Grist breswyllo yn ein calonnau drwy ffydd'. Dyma'r weledigaeth fawr a'n try o'n crwydro ffôl. Os gallwn fyw bob munud gyda'r ymwybyddiaeth o wirionedd Crist ynom ni yn obaith y gogoniant (Colosiaid 1:27), mi fydd ef yn ein cadw yn ei gariad rhyfeddol.

A dyma fyrddwn ei weddi: 'Boed i chwi, sydd â chariad yn wreiddyn a sylfaen eich bywyd, gael eich galluogi i amgyffred ynghyd â'r holl saint beth yw lled a hyd ac

uchder a dyfnder cariad Crist, a gwybod am y cariad hwnnw, er ei fod uwchlaw gwybodaeth. Felly dygir chwi i gyflawnder, hyd at holl gyflawnder Duw.'

Garech chwi gael eich dwyn i gyflawnder? Dyma ddyhead ein hoes hedonistaidd ni, ond rydym cymaint ar gyfeiliorn wrth beidio ag ystyried 'lled a hyd ac uchder a dyfnder cariad Crist'. Ceisiodd y ddynolryw ddianc rhag Duw drwy ddweud ei fod yn farw. Y gwir yw: do, bu farw Crist, ac fel y dengys yr Effesiaid mor glir, mae am ein cynnwys ni yn ei atgyfodiad a'i fywyd newydd, cyflawn. Does syndod i Paul gloi ei weddi â'r byrddwn: 'Iddo ef a'i haeddiant'.

Dymuniad pennaf Dafydd oedd cael codi templ i'r Duw byw, ond ni chafodd wneud hynny oherwydd ei gyfeiliorniad. Rhyfeddod y Cyfamod Newydd, drwy Iesu, Fab Dafydd, yw y daw Ef, a'r Tad, drwy'r Ysbryd Glân, i breswyllo yn ein calon a'i throi'n deml sanctaidd, fyw. Nid rhyw gyfriniaeth i ambell un mo'r gwirionedd hwn, ond yn hytrach mae'n gyd-etifeddiaeth i bawb sydd trwy ras yn credu yn Iesu a'i aberth drosom: 'Cans llosgi wnaeth dy gariad pur bob cam, / ni allodd angau'i hun ddiffoddi'r fflam.'

Emyn 492 – 'Mae'r gwaed a redodd ar y groes'

Gweddï

Cyrhaeddaist ddiben dy anturiaeth
ddrud
drwy boenau mawr;
a gwelais di dan faich gofidiau'r byd
yn gwyro i lawr,
ac yn dy ochain dwys a'th ddrylliog lef
yn galw'r afradloniaid tua thref.

Tydi yw'r ffordd, a mwy na'r ffordd i mi,
tydi yw 'ngrym:
pa les ymdrechu, f'Arglwydd, hebot ti,
a minnau'n ddim?
O rymus Un, na wybu lwfywrhau,
dy nerth a'm ceidw innau heb lesgau.
(GEORGE REES, 1873–1950)

Dwg ni i gyflawnder drwy wir amgyffred dy gariad rhyfeddol, a dyro ef yn wreiddyn a sylfaen i'n byw. Amen.

Hywel Rhys Edwards
Parc, Y Bala

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huv@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru